# COFNODION CYFARFOD FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR DELYN, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, YR WYDDGRUG DDYDD LLUN, 24 MEHEFIN, 2019

**YN BRESENNOL**

Cyngor Sir Ceredigion– Hywel Jones (Cadeirydd)
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy– John Roberts (Cadeirydd) and Iain Moore (Is-gadeirydd)
Cyngor Sir Ddinbych- Julia Hughes (Is-gadeirydd) and Anne Mellor (Aelod Annibynnol)
Cyngor Sir y Fflint– Gareth Owens (Swyddog Monitro), Matthew Georgiou (Dirprwy Swyddog Monitro), Robert Dewey (Cadeirydd), Julia Hughes (Isgadeirydd), Ken Molyneux (Aelod Annibynnol), Phillipa Earlam (Aelod Annibynnol)
Cyngor Gwynedd - Einir Young (Cadeirydd) a Margaret E.Jones (Is-gadeirydd)
Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru - Julia Hughes (Is-gadeirydd)
Powys – Stephan Hays (Cadeirydd)
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam- Neil Benson (Is-gadeirydd) Sandra Hunt (Aelod Annibynnol)
Cyngor Sir Ynys Môn - Mike Wilson (Cadeirydd) ac Islwyn Jones (Is-gadeirydd)
Ombwdsmon Cyhoeddus Cymru – Nick Bennett

## 1. ETHOL CADEIRYDD AR GYFER Y CYFARFOD

Dewiswyd Robert Dewey, Cadeirydd Pwyllgor Safonau Cyngor Sir y Fflint, yn Gadeirydd y cyfarfod.

## 2. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth:-

Cyngor Sir Ceredigion - Caroline White (Is-gadeirydd)
Cyngor Sir Ddinbych - Ian Trigger (Cadeirydd)
Powys - Claire Jackson (Is-gadeirydd) Debby Jones (Swyddog Monitro)
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam - Michael Pugh (Cadeirydd)

## 3. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 29 MEHEFIN, 2018

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2018.

**PENDERFYNWYD derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2018 fel cofnod cywir.**

## 4. CYFLWYNIAD GAN OMBWDSMON CYHOEDDUS CYMRU – NICK BENNETT

Cod OGCC – esboniodd yr Ombwdsmon ei bwerau newydd i

i. Ystyried cwynion ar lafar
ii. Cwynion am Ofal Iechyd Preifat
iii. Ar eich cymhelliant eich hun

Mae nifer cynyddol o gwynion am wasanaeth wedi'u gwneud, yn arbennig ym maes iechyd, ond bu cynnydd tebyg mewn cwynion cod. Mae swyddfa fach yng Ngogledd Cymru a allai dyfu dros amser. O blith y nifer faw ro gwynion cod, nid oes sail i'r mwyafrif. Mae nifer cymharol fach o broblemau difrifol – cyfeiriwyd 8 allan o 288 i gael gwrandawiad, sy'n dangos y safonau uchel yng Nghymru.

Roedd dau o bob tri o gwynion am Gynghorau Tref a Chymuned – cafwyd mwy o'r blaen. Roedd hyn yn fwy cytbwys gyda nifer tebyg/cyfartal yn dod o Gynghorau Sir. Mae'r Ombwdsmon yn credu bod y Protocol Datrys Lleol yn gweithio ond mae angen gwneud mwy o waith o hyd mewn Cynghorau Tref a Chymuned.

Mae prawf 2 gam yn bwysig, mae'n caniatáu mwy o amser ar gyfer achosion mwy difrifol a llai o gwynion blinderus.

Yng Ngogledd Cymru, 32% o gwynion ond dim ond 22% o'r boblogaeth. Dim ond 17% a gyfeiriwyd i gael gwrandawiad. Mae gwaith i'w wneud ar gwynion lefel isel.

Rhoddodd Mr Bennett enghreifftiau o gwynion hurt a dderbyniwyd gan ei swyddfa.

Bu gostyngiad yn nifer cwynion Aelod yn erbyn Aelod ar lefel Sirol. Mae angen ehangu hyn i lefel Cynghorau Tref a Chymuned.

Beth all OGCC ei wneud i gefnogi arweinyddiaeth leol? Mae Ynys Môn, Sir Fynwy ac Abertawe wedi gwneud gwaith da i hybu hyfforddiant ac maent yn barod i ddod i siarad.

Gofynnodd Powys gwestiynau ynghylch sut i orfodi addewidion a wnaed gan Aelodau fel rhan o broses Foesegol. Mae arnynt eisiau mwy o bŵer i'w gorfodi i gydymffurfio. Dywedodd Swyddog Monitro Sir y Fflint ei fod wedi gofyn i Lywodraeth Cymru am bwerau sancsiynau mwy hyblyg ond gwrthodwyd hyn.

Dywedodd Mike Wilson, Ynys Môn, mai'r broblem gyda Chynghorau Tref a Chymuned oed nad oes gan y Sir unrhyw awdurdodiad drostynt. Maent yn ceisio cyfleu'r neges er mwyn helpu i ddatrys pethau'n lleol. Nid oes gennym unrhyw bwerau ymchwilio felly rhaid i ni dderbyn yr hyn a ddywedir wrthym. Cytunodd OGCC fod pŵer meddal a dylanwad yr un mor bwysig. Dywedodd na fyddai ei gymorth yn datrys bob problem.

Dywedodd Einir Young, Gwynedd, yr hoffai gael y pŵer i fynnu ymddiheuriad. Roedd Mr Bennett yn awyddus i edrych ymhellach ar hyn gyda Llywodraeth Cymru ond dywedodd fod deddfu'n cymryd amser hir. Gellid cynnwys datrysiadau rhad yn y ddeddfwriaeth. Gellid cyhoeddi costau apeliadau – roedd OGCC yn credu y gallai hyn leihau ymddygiad blinderus.

Awgrymodd Conwy fod presenoldeb mewn sesiynau hyfforddi'n gallu bod yn isel – oedd unrhyw le i dynhau'r ymrwymiad i fynychu hyfforddiant? Yn ôl Mr Bennett byddai o fudd mynychu. Yn Sir Fynwy maent wedi cael cyflwyniadau ar –

1. Rôl y Swyddog Monitro
2. CLILC ar rôl Cynghorau Tref a Chymuned yn y dyfodol
3. Sut y gall OVW helpu
4. Rôl Pwyllgorau Safonau
5. Cyflwyniad i SAC
6. Gwaith OGCC

Gofynnodd Sir y Fflint a ellid cael eglurder neu ganllawiau ar ystyr bwlio, sef y math o gŵyn unigol amlycaf. Awgrymodd Gwynedd y dylid gofyn am gyngor gan Adnoddau Dynol.

Mae Ceredigion yn rhoi proffil uchel i bwysigrwydd hyfforddiant. Cynhaliwyd cyfres o sesiynau lle'r oedd Aelodau Annibynnol yn bresennol. Hefyd cynhaliwyd 4 o gyfarfodydd ardal i gynnal yr hyfforddiant. Nid oedd pawb yn bresennol ond mae'n helpu i osod y cywair. Cytunodd OGCC fod diwylliant yn bwysig. Hefyd mae'r Swyddog Monitro yng Ngwynedd yn gwneud llawer o hyfforddiant ond y rhai ag arnynt angen y lleiaf o hyfforddiant yw'r rhai sy'n mynychu. Mae'r gwrthwyneb yn bosibl, sef ymddygiad gor-ofalus yn bosibl a datgan diddordeb diangen.

Mae Sir y Fflint yn datblygu rhestr gynyddol fanwl o ymddygiad disgwyliedig.

Disgrifiodd Julia Hughes, Is-gadeirydd Sir y Fflint a Dinbych, broses ymweliadau â Chynghorau Tref a Chymuned i ddeall yn well sut mae cyfarfodydd yn gweithio a sylwi ar feysydd arfer da/gwael. Eglurodd fod adborth yn cael ei roi i bob clerc.

Holodd Hywel Jones, Ceredigion, ynghylch adroddiad ar ddiwygio Cynghorau Tref a Chymuned a ph'un ai a fu unrhyw gynnydd. Mae Mr Bennett yn credu y gall cynigion ar gyfer diwygio arwain at ddiffyg eglurder ac atebolrwydd. Fodd bynnag, mae lle i ddatblygu Cynghorau Tref a Chymuned ond byddai angen gwelliant o ran ymddygiad.

Gwnaed y pwynt gan Islwyn Jones, Ynys Môn, fod y Comisiynydd yn gyfrifol am unrhyw wasanaeth sy'n cael ei ddarparu (cytunodd Mr Bennett ond dywedodd nad dyna'r achos bod amser). Mae Ynys Môn wedi adolygu pump neu chwech o'u gwasanaethau mwyaf - wedi edrych ar wefannau, cofnodion a Datganiadau o Ddiddordeb gyda nhw ac wedi rhoi adborth penodol yn ogystal â llythyr generig.

Gofynnodd Sir y Fflint a yw OGCC yn cadw cofnodion o gwynion lefel isel er mwyn gweld patrwm os bydd cwynion dilynol. Awgrymodd Mr Bennett y dylai bob achwynydd gadw cofnod.

Gofynnodd Conwy gwestiwn ynghylch Cyfryngau Cymdeithasol – nid oedd aelodau'n mynychu hyfforddiant felly nid oeddent yn canfod y cymorth sydd ar gael. Gofynnwyd i Aelodau Annibynnol beidio â bod yn bresennol mewn rhai Cynghorau oherwydd eu bod yn her i Gynghorwyr profiadol. Dywedodd Mr Bennett ei bod yn bwysig bod yr etholiadau'n bwysig fel ffordd o sicrhau bod atebolrwydd.

Holodd Powys gwestiwn ynghylch pryd mae materion yn cael eu gwneud yn gyhoeddus. Dywedodd Mr Bennett nad yw'n bosibl rhoi taw ar Aelodau sy'n dewis cadarnhau bod cwyn yn bodoli. Bydd ei swyddfa'n cadarnhau bodolaeth ymchwiliad. Os na chadarnheir unrhyw beth, mae hynny'n arwain at ddyfalu. Yn hytrach nag adrodd ynghylch materion yn gyhoeddus, gallai'r Cyngor e-bostio aelodau'r Pwyllgor Safonau er mwyn iddynt fod yn ymwybodol yn gyfrinachol o gwynion.

**5. GWERSI O ADOLYGIAD O'R COD YMDDYGIAD YN LLOEGR A WNAED GAN Y PWYLLGOR SAFONAU MEWN BYWYD CYHOEDDUS**

https://www.gov.uk/government/collections/local-government-ethical-standards

Cadarnhaodd Sir y Fflint arfer anghyson o ran arddangos y Cod Ymddygiad – angen hybu mynediad hawdd.

Gofynnodd Gwynedd i ba raddau mae yna faterion a ddylai ond sydd heb eu hadrodd.

Gofynnodd Ynys Môn a allai safonau lithro os nad oedd mwy o gydweithio.

## 6. ENW'R FFORWM

Fforwm Safonau Gogledd a Chanolbarth Cymru.

## 7. CYDBWYLLGOR SAFONAU

Mae Ynys Môn yn cyfarfod yn anffurfiol i ymgymryd â thasgau rhwng cyfarfodydd.

Mae Conwy wedi lleihau eu cyfarfodydd er mwyn gallu cyfarfod yn anffurfiol o fewn y gyllideb.

Mae gan Ynys Môn is-bwyllgor sy'n ystyried gollyngiadau. Mae sesiwn hyfforddi 30 munud cyn bob cyfarfod – JH yn awgrymu rhannu aelodau ar draws Pwyllgorau.

Byddai gwasanaeth cyfieithu Cymraeg yn hanfodol.

Cafwyd trafodaeth yn ystyried gollyngiadau a sut i ddelio â nhw gyda chyfarfodydd achlysurol y Pwyllgor Safonau.

Yr anfantais posibl fyddai cost a theithio.

Hyfforddiant – aelod lleyg o bob Sir ynghyd â chynrychiolydd etholedig o bob Cyngor.

Efallai byddwn am ystyried gwahanol fodelau e.e. 1, 2 neu 3 opsiwn.

Mae Gwynedd yn ystyried bod yr un pethau'n gyffredin i bawb ac y gellid eu rhannu e.e. hyfforddiant yn seiliedig ar ddaearyddiaeth.

Roedd Mike Wilson, Ynys Môn, yn gweld manteision posibl (e.e. arbedion cost). Yna gellid ystyried materion fel sut y caiff Aelodau Annibynnol eu penodi. Bydd gan Ynys Môn Bwyllgor cwbl newydd fwy neu lai ym mis Tachwedd.

Gallai cysylltiad/dolen leol fod yn bwysig i feithrin hyder.

Byddai'n ddiddorol gweld y pethau o blaid ac yn erbyn a ph'un ai y byddai'n arwain at wella safonau

Mae Robert Dewey o Sir y Fflint eisiau cadw'r cyfle i ganiatáu gollyngiadau'n gyflym.

Gofynnwyd am ddadansoddiad SWOT gan fwydo'r atebion yn ôl i Sir y Fflint
Naill ai – Ia, Na neu Efallai

## 8. YN DDIWEDDAR CYHOEDDWYD ADRODDIADAU SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU MEWN PERTHYNAS Â DAU GYNGOR CYMUNED O FEWN YNYS MÔN

Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi adrodd yn gyhoeddus ar fethiannau archwilio penodol yn dyddio'n ôl i 2013/14 a 2014/15. Ydi hwn yn batrwm sy'n cael ei ailadrodd (mewn adroddiadau diweddar) neu'n enghraifft ar ei phen ei hun? Yn Sir y Fflint bu adroddiad diddordeb cyhoeddus diweddar lle'r oedd hanes o drafod gyda'r Cyngor Tref a bod y mater 'wedi'i godi i'r lefel nesaf' oherwydd diffyg penderfyniad.

## 9. UNRHYW FATER ARALL

## 10. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF

Awgrymwyd bod Powys yn ei gynnal ym mis Tachwedd mewn lleoliad ym Machynlleth.

DRAFT